# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 16.09.13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** Eddie Dogan, Huw Edwards, Annwen Hughes, Christopher O'Neal, Peter Read, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W. Williams,

**Hefyd yn Bresennol:** Aled Davies (Pennaeth Adran Rheoleiddio), John Reynolds (Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd), Siôn Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cynghorydd W. Tudor Owen.

1. Ymddiheuriadau – Cyng Gruffydd Williams

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2013, fel rhai cywir.

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 5ed o Fehefin, 4ydd o Orffennaf a 31ain Gorffennaf 2013.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

**6. LLYTHYR GAN CYNGOR DINAS BANGOR – ER TRAFODAETH**

Derbyniwyd llythyr gan Gwyn Hughes, Clerc Cyngor Dinas Bangor (dyddiedig 4.9.2013) yn datgan bod preswylwyr Bangor yn teimlo eu bont yn cael eu siomi gan benderfyniadau diweddar yr Is Bwyllgorau Trwyddedu i ganiatáu siopau bwyd i aros ar agor yn hwyr - hyn yn groes i gyngor yr Heddlu ac i wrthwynebiadau gan y Cyngor Dinas. Adroddwyd y byddai'r penderfyniadau hyn yn arwain at oblygiadau anochel i'r preswylwyr – cynnydd mewn sŵn, aflonyddwch, sbwriel, ymddygiad gwrth cymdeithasol, a thrais.

Sylwadau:
Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu yn datgan eu siom o gynnwys y llythyr. Cyfeiriwyd at y canllawiau a'r gweithdrefnau  priodol sydd gan y Cyngor wrth weithredu penderfyniadau a phwysleisiwyd bod y penderfyniad yn cael ei wneud ar sail y wybodaeth sydd yn cael ei gyflwyno iddynt.

Argymhellwyd anfon llythyr cyffredinol at Gyngor Dinas Bangor yn amlinellu'r drefn statudol sydd i benderfyniadau'r Is-bwyllgorau Trwyddedu. Angen eu hatgoffa hefyd o'u hawl i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd, eu hawl i apêl ac eu hawl i wneud cais am adolygiadau.

Mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd  y Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith y byddai gan unrhyw aelod o'r pwyllgor oedd hefyd yn aelod o Gyngor Dinas Bangor fuddiant personol yn yr eitem hon o dan y Côd Ymddygiad.  Serch hynny, roedd eithriad yn y Côd yn galluogi iddynt gymryd rhan llawn yn y drafodaeth bresennol.

**Penderfynwyd bod Gwenan Mai Williams a Siôn Huws, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yn drafftio ymateb i lythyr Cyngor Dinas Bangor yn nodi'r argymhellion uchod**

Diolchwyd i bawb am eu sylwadau.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00a.m. a daeth i ben am 10:30am